CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 09/12/2025 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Iwan Evans | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Gwynfor Jones | Gruffudd Griffiths | Caren Jones | Gito Williams | Pat Humphreys (Clerc) |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Rhys Llewelyn, Rhian Sanson, Mared Llywelyn Williams, Lleucu Jones a Carys Roberts.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Pat Humphreys – eitem 8
   Iwan Evans – eitem 6

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 11/11/2025
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Iwan Evans    Eilio: Gruffudd Griffiths

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Gosod arwydd llwybr Waun**
      Mae'r arwydd wedi cyrraedd a penderfynwyd gofyn i'r un contractwr a wnaeth y gwaith ar y llwybr i osod yr arwydd. Fe wnaeth aelod lleol Morfa Nefyn atgoffa pawb y pasiwyd yn ein pwyllgor diwethaf i gael llun o'r Cadeirydd, aelod lleol Nefyn a'r ddau gontractwr a fu'n gweithio ar y llwybrau o flaen yr arwydd unwaith y bydd y gwaith wedi ei wneud a'i roi yn y Llanw Llŷn. Mae'r gwellt yn Cae Coch angen ei dorri yn ofnadwy ac fe gynigiodd un o aelodau Nefyn fynd i'w dorri a diolchodd y cadeirydd iddo.
   2. **Pant Dyffryn** – Gito Williams
      Mae un o aelodau Edern yn bryderus am y llifogydd sydd ar y ffordd allan o Morfa am Bryncynnan a'r tagfeydd sydd yng nghanol Nefyn yn dilyn hyn. Mae aelod lleol Morfa wedi bod yn trafod y mater hefo Cyngor Gwynedd ac maent yn delio hefo'r broblem drwy gael cwmni yno i bwmpio'r dŵr oddi ar y ffordd fawr. Nid yw hyn yn mynd i gael gwared o'r broblem felly gan fod aelod Edern hefo profiad yn y math yma o waith mae aelod lleol Morfa am ofyn i Brif Beiriannydd Cyngor Gwynedd ei ffonio i drafod y mater i geisio cael datrusiad hir dymor.
   3. **Printer newydd** – Clerc
      Cytunwyd i'r Clerc archebu printer newydd gan ei bod yn dibynnu arno i wneud ei gwaith, mae hi wedi trio bob ffordd o'i drwsio ond mae o wedi dod i ddiwedd ei oes.
      Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Catrin Roberts
   4. **Diweddariad ar llwybr Ty Coch** – Gareth Jones

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Cafwyd diweddariad gan aelod lleol Morfa Nefyn. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn delio hefo'r mater.

5. **Sedd Wag Ward Morfa Nefyn –** Clerc
Yn anffodus mae un o aelodau Morfa Nefyn wedi colli ei sedd felly mae'r Clerc am fynd dwy'r broses ffurfiol o lenwi'r sedd, fe fydd hysbyseb yn cael ei roi fyny yn Siop Siarad ac ar wefan y Cyngor Tref.

6. **Cais i newid noson cyfarfodydd misol CTN –** Iwan Evans
Gan fod un o'r aelodau yn dilyn cwrs ym Mhrifysgol Bangor a ddim yn cyrraedd adref tan wedi 8 bob nos Fawrth mae'n gofyn os yw'n bosibl newid noson y cyfarfodydd am gyfnod o 3 blynedd o nos Fawrth i nos Fercher.
Penderfyniad: pasiwyd i gario ymlaen i gyfarfod ar yr ail nos Fawrth o bob mis gan mai hyn sydd wedi bodoli ers y cychwyn ac mae'r aelodau i gyd yn gwybod bod rhaid cadw'r noson yna bob mis. Mae llawer o'r aelodau ar nifer o bwyllgorau eraill sydd yn disgyn ar nos Fercher a nosweithiau eraill yn ystod yr wythnos ac felly mae'n amhosibl newid i nos Fercher. Nid yw'r Clerc yn gallu bod yn bresennol ar nos Fercher o fis Medi 2026 ymlaen gan ei bod yn dechrau gwarchod ei ŵyr ar ddydd Mercher a Iau o hynny ymlaen ac felly yn methu gwneud y gwaith angenrheidiol sydd angen ei wneud ar ddiwrnod y pwyllgor. Awgrymwyd i'r aelod i geisio ymuno drwy zoom ac i fynychu yn ystod y gwyliau pan nad oes Prifysgol ond os y bydd yn methu 6 mis o bwyllgor yna mi fydd yn colli ei sedd.
Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Arfon Hughes

7. **Llyfrgell Nefyn – gwaith paentio –** Arfon Hughes a Gruffydd Williams
Mae dau o'r aelodau wedi bod yn y Llyfrgell i weld y broblem ac yn cytuno nad oes angen gwneud unrhyw beth ar frys. Mae Arfon sy'n gweithio yn y Llyfrgell yn dweud fod pethau wedi gwella ers cael y gwresogyddion newydd.
Penderfyniad: cadw llygaid ar y sefyllfa ac os y bydd yn gwaethygu yna trefnu bod rhywun yn mynd yno i grafu, selio a peintio'r waliau.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

8. **Oriau Ychwanegol y Clerc –** Rhestr Llwybrau a Cais Grant AHNE – Clerc
Mae'r Clerc wedi gweithio oriau ychwanegol ar gais grant ail wynebu llwybrau a creu rhestr llwybrau er mwyn rhoi tendar llwybrau allan ac mae'r aelodau wedi cael copi o'r oriau.
Penderfyniad: pasiwyd i dalu'r Clerc am y gwiath ychwanegol yma yn seiliedig ar ei graddfa cyflog presennol.
Cynnig: Caren Jones Eilio: Arfon Hughes

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Pasiwyd hefyd o hyn allan nad oes angen i'r Clerc roi ei oriau ychwanegol fel eitem ar wahan ar yr agenda dim ond eu gyrru yn syth i'r cyfrifydd a rhoi'r cyfanswm cyflog a oriau ychwanegol o dan 'Taliadau i'w gwneud' ar yr agenda. Y Clerc i ofyn i Un Llais Cymru os yw hyn yn iawn.
Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Gareth Jones

9. **Tap Dŵr Mynwent Edern –** Gito Williams
Mae un o aelodau Edern wedi cael cwynion fod pobol sydd hefo 'campervans' yn defnyddio dŵr o'r tap dŵr yn y fynwent heb ganiatad ac yn gofyn os oes modd symud y tap o'r fynedfa yr holl ffordd i ochor arall y fynwent sef yn y top fel nad oes mynediad at y tap. Mae'r Clerc wedi cadarnhau nad Cyngor Tref Nefyn sydd yn talu am y dŵr yn y fynwent felly yn gyntaf mae'n rhaid ffendio allan pwy sydd yn talu am y dŵr. Mae'r aelod am wneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf.

10. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    1. **Ebost Cyngor Cymuned Pistyll –** Côf Golofn Nefyn
    Penderfyniad: Mae'r Clerc wedi cadarnhau y bydd y gwaith o drwsio'r 'bollard' yn cychwyn ddechrau wythnos nesaf felly pasiwyd i wneud gwaith cynnal a chadw ar y Gôf Golofn unwaith y bydd y gwaith o drwsio'r 'bollard' wedi gorffen. Pasiwyd i ddefnyddio contractwr lleol i wneud y gwaith ac mae'r Clerc am yrru ymateb i Cyngor Cymuned Pistyll yn dweud hyn.
    Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Gareth

11. **Ceisiadau Cynllunio**
    1. **C25/0846/42/LL -** Fferm Porth Dinllaen Lôn Goch, Edern – Cais i adaeiladu storfa silwair newydd ar bwys sied bresnnol ar iard y fferm.
    Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
    Cynnig: Gito Williams  Eilio: Iwan Evans

12. **Ceisiadau Diweddarach**
    1. **C25/0823/42/LL**- Hendre Lôn Gerddi, Edern – adeiladu sied dros y storfa dail bresennol
    Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
    Cynnig: Gwynfor Jones  Eilio: Gito Williams
    2. **C25/0761/42/DT** - 15 Tŷ'n Y Mur, Morfa Nefyn - estyniad i modurdy presennol.
    Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
    Cynnig: Gito Williams  Eilio: Gruffudd Griffiths

13. **Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**
- Cyflog y Clerc – £1496.18 (taliad Bacs)

## COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 09/12/2025 am 7yh

- Defib Store – padiau a batris - £262.80
- Snowdonia Fire & Security – Llyfrgell Nefyn - £86.64
- Cyngor Gwynedd – cyfraniad tuag at reolaeth traeth Nefyn 2025 - £5500.00
- Clerc – torri dau oriad sbâr i'r Llyfrgell - £9.50
- H T Williams – gosod, tynnu a cael gwared o'r dair goeden nadolig - £1440.00
- Nefyn Foods Ltd – rent Siop Siarad - £780.00
- D M Parry – pedwerydd taliad mynwent Nefyn a trydydd taliad mynwent Edern - £1540.00
- John Gwynfor Jones – agor bedd Maldwyn Roberts Williams, Charles Caddick a Carys Ann Evans - £1800.00
- Replay Maintenance – cynnal a chadw'r cae aml ddefnydd - £474.05
- G Davies – tair coeden nadolig - £1230.00
- Designer Signs – arwydd llwybr Waun - £175.20
- A R Jones Electrical Ltd – gosod a tynnu y goleuadau ar y coed nadolig - £250.00
- HMRC – PAYE mis 8 - £471.05
- Llanw Llŷn – hysbyseb tendar llwybrau - £15.30
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Tachwedd - £162.75
- Tyddyn Sachau – blodau Morfa - £31.89

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes        Eilio: Catrin Roberts

**14. Taliadau wedi eu derbyn**

- Scottish Power - £103.19
- Zurich – arian yswiriant Gôf Golofn - £2071.00
- G D Roberts – angladd Helen Louisa Roberts £1050.00
- Selwyn Pritchard Celtic Heritage – coeden nadolig Morfa - £150.00
- Ysgol Yrru Kelly – coeden nadolig Morfa - £25.00
- Ashley Hughes – coeden nadolig Nefyn - £137.50
- Sied DIY – coeden nadolig Morfa - £20.00
- Siop Gwyneth – coeden nadolig Morfa - £20.00
- Ifan Hughes – angladd Eleanor Hughes - £965.00